Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

Ymateb i Ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Caiff yr ymateb ei gyhoeddi ar 1af Mawrth 2023

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	4
Cefndir	5
Crynodeb o'r ymatebion	6
Ymatebion i gwestiynau penodol	7
Casgliad a chamau nesaf	16
Egwyddorion ymgynghori	17
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad	18

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i ymgynghoriad Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS/GLITEF).

Bydd yn ymdrin â:

- chefndir yr ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ein hymateb i'r materion a godwyd
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Gellir cael rhagor o gopiau o'r adroddiad a'r papur ymgynghori wrth gysylltu â Hywel Hughes drwy'r cyfeiri- ad isod:

Uned Iaeth Gymraeg
Canolfan Cyfiawnder Caernarfon
Ffordd Llanberis
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2DF

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael drwy https://consult.justice.gov.uk/
Gallwch wneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol drwy gysylltu â'r cyfieirad uchod.

Cwynion neu sylwadau
Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â GLITEF drwy'r cyfeiriad uchod.

Cefndir

1. Cyhoeddwyd y Papur Ymgynghoriad ar y “Cynllun Iaith Gymraeg” ar y 1af o Fawrth 2022 a daeth y cyfnod i ben ar yr 8fed o Ebrill 2022. Gofynnwyd am sylwadau ar Gynllun Iaith Gymraeg arfaethedig GLlTEF (y “Cynllun”). Mae’r Cynllun wedi’i seilio ar yr egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y bydd GLlTEM yn trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu Cyfiawnder yng Nghymru.

2. Gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau am y ddau gwestiwn isod:

    - A ydych yn meddwl fod y Cynllun yn glir wrth egluro pa wasanaethau byddai GLlTEF yn eu cynnig yn y Gymraeg i’r cyhoedd, staff ac ynadaeth?
    - A oes gennych unrhyw welliannau fyddech chi’n eu gwneud i’r Cynllun? A oes yna unrhyw beth y dylem ei gynnwys yn y cynllun i’w wneud yn haws i ymdrin ag unrhyw newidiadau posibl yng ngwaith y llysoedd a thribiwnlysoedd yn y dyfodol?

3. Roedd modd i ymatebwyr roi barn a sylwadau ar bapur neu ar-lein yn y Gymraeg neu’r Saesneg.

4. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i’n hymgynghoriad. Mae’r ymatebion yn ffynhonnell werthfawr o safbwyntiau, gwybodaeth a syniadau a fydd yn arwain at gyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig.

5. Mae’r ymateb i’r ymgynghoriad hwn yn crynhoi’r ymatebion a gafwyd, ein hymateb iddynt, a sut mae’r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y Cynllun diwygiedig. Mae rhestr lawn o ymatebwyr i’w gweld yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

1. Roedd cyfanswm o wyth ymateb i'r papur ymgynghori.

2. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol ac adeiladol. Roedd y rhan helaeth yn cytuno gyda chynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg arfaethedig, gan gynnwys ei ymrwymiadau.

3. Braf yw dweud bod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi nodi bod yr holl destun pinc o fewn y cynllun diwygiedig yn tynnu sylw at y newidiadau yn arwydd o ba mor barod oedd GLITEF i wella a chryfhau eu trefniadau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

4. Croesawodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru y datganiad ym mharagraff 6.10 mewn perthynas â rôl y cyfieithydd h.y ni ddisgwylir i gyfieithu ystyr y ddeddfwriaeth fel â ddrafftiwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5. Roedd rhai sylwadau yn ymwneud â gwallau teipio ac er nad yw'r rhain wedi'u nodi yn yr ymateb hwn cawsant eu cywiro yn y Cynllun ei hun.

Ymatebion i gwestiynau penodol

1. A ydych yn meddwl bod y Cynllun yn glir wrth egluro pa wasanaethau byddai GLITEF yn eu cynnig yn y Gymraeg i'r cyhoedd, staff ac ynadaeth?

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn nodi bod darpariaethau'r Cynllun yn gyffredinol yn ddigon clir. Roedd yn galonogol darllen un ymateb a ddywedodd fod dealltwriaeth yr unigolyn o sut rydym yn gweithredu ein gwasanaeth Iaith Gymraeg wedi gwella'n sylweddol ar ôl darllen y Cynllun.

Ymatebion i gwestiynnau penodol

1. A oes gennych unrhyw welliannau a fyddech chi'n eu gwneud i'r Cynllun? A oes yna unrhyw beth y dylem ei gynnwys yn y cynllun i'w wneud yn haws i ymdrin ag unrhyw newidiadau posibl yng ngwaith y llysoedd a thribiwnlysoedd yn y dyfodol?

- Mae'r prif welliannau wedi'u nodi yn y tabl isod. Cafwyd sylw yn crybwyll y dylem godi ymwybyddiaeth o hawl defnyddwyr y llys i ddefnyddio'r Gymraeg a bod dewis iaith yn allweddol i lwyddiant y Cynllun a'r angen i sicrhau'r 'cynnig gweithredol'. Gwnaed sylw hefyd ei bod yn allweddol i sicrhau bod holl staff y Canolfannau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yn deall y broses o ymdrin ag achos lle defnyddir y Gymraeg.

- Gwnaed sylw mewn perthynas â phwysigrwydd sicrhau bod yr holl wasanaethau ar-lein ar gyfer yr ynadaeth ar gael yn y Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg a bod y balchder o'u Cymreictod sydd gan ynadon Cymraeg eu hiaith yn bwysig iddynt o ran gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r rhai sy'n dod ger eu bron.

- Nodwyd hefyd os na allem gynnal cyfieithu ar y pryd trwy ein platfformau arferol ' megis CVP, Teams neu Fully Video Hearings y dylem ddefnyddio platfform sy'n gallu gwneud hyn, sef Zoom.

- Yn olaf, cyflwynwyd sylw ynghylch a fyddem ni fel sefydliad, wrth weithredu'r Cynllun yn fodlon ystyried sut y gallai rhyngweithio yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid a'r cyrff perthnasol yng Nghymru fod yn fuddiol o ran nodi cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Sylwadau	Ymateb GLITEF	Newidiadau i'r Cynllun Iaith Gymraeg
Nododd un person bod cyfeirio at yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad llys yn ymddangos yn rhy hwyr o fewn y Cynllun h.y. ym mharagraff 6.5.	Mae'r Cynllun yn dilyn strwythur yr argymhellion a welir yn y Canllawiau Paratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw reswm pam na all y cyfeiriad at Adran 22 o DdIG 93 ymddangos yn Natganiad Polisi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar dudalen 4 o'r Cynllun.	Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal gan sicrhau y gall unrhyw barti gymryd rhan mewn achos cyfreithiol yng Nghymru yn y Gymraeg. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd GLITEF yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
Nododd un person bod paragraff 6.6 sy'n cyfeirio at 'yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys/ gwrandawiad tribiwnlys' 'yn rhy gyfyngedig' a'i fod yn awgrymu mai dim ond pan fydd 'pob parti yn deall Cymraeg y gellir cynnal achos llys yn y Gymraeg'.	Diben y paragraff hwn ydy egluro na all diffynnydd wneud 'cais' am wrandawiad yn y Gymraeg h.y ni ellir disgwyl i'r llys baratoi cyfieithu ar y pryd o dystiolaeth lafar a roddir yn Saesneg i'r Gymraeg os yw'r diffynnydd wedi dewis rhoi ei dystiolaeth ei hun yn y Gymraeg. Wedi dweud hyn os yw'n amlwg i'r Barnwr y byddai'r diffynnydd yn cael trafferth deall tystiolaeth a roddir yn Saesneg yna mae modd i'r llys ystyried caniatau cyfieithu.	Dim newid i'r Cynllun.
Nododd dau berson y dylai paragraff 6.7 gyfeirio at unrhyw 'barti' yn ogystal â 'tyst'.	Nid ydym yn cytuno â hyn gan fod 'tyst' yn cael ei ystyried fel 'tyst' a 'diffynnydd'. Fodd bynnag, gellir newid y geiriad i nodi 'gan Gwnsler di-Gymraeg neu unrhyw gynrychiolydd arall'.	Diwygiwyd i Bydd unrhyw dyst sydd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn Gymraeg ond sy'n cael ei holi yn Saesneg gan Gwnsler neu

		unrhyw gynrychiolydd arall nad yw'n siarad Cymraeg, yn cael y dewis o gael y cwestiynau Saesneg wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg os bydd hynny'n gwneud y broses o roi tystiolaeth yn Gymraeg yn haws neu os yw'r sawl sy'n rhoi tystiolaeth yn cael trafferthdeall Saesneg.
Nododd un person bod y Cynllun yn cyfeirio at yr Iaith Gymraeg fel petai yn rhywbeth anarferol' e.e. paragraff 6.18 sy'n nodi "gallem gynnig gwasanaeth cyfryngu yn y Gymraeg" yn hytrach na dweud y gallwch gael eich gwrandawiad cyfryngu yn y Gymraeg neu Saesneg.	Rydym yn gweld cryn dipyn o synnwyr yn y sylw hwn. Er mai hanfod Cynllun Iaith Gymraeg yw canolbwyntio ar y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg, gall tynnu sylw at y Gymraeg ymddangos fel ein bod yn gwneud pwynt ohoni, pan ddylai fod yn ail natur. Byddwn yn newid geiriad paragraff 5.39 yn unol â hynny a'r enghreifftiau eraill a roddwyd yn ymateb yr unigolyn.	Diwigwyd i:- "Caiff gwrandawiadau cyfryngu sifil eu trefnu gan WLITEF a gwellir eu hwyluso yn Gymraeg neu Saesneg."
Nododd un person y byddai o bosib yn ddefnyddiol pe bai'r Cynllun yn amlygu pa ddarpariaethau sydd ar gael ar gyfer gwrandawiadau ac awgrymwyd rhai penawdau.	Rydym yn cydnabod y gallai 'defnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol' fod yn well fel Adran ynddo'i hun o fewn y Cynllun yn hytrach na bod yn rhan o Adran 5 'Ein Darpariaeth Iaith Gymraeg'. Rydym hefyd yn meddwl y byddai crynodeb byr ar ddechrau 'Defnyddio'r Gymraeg mewn Gwrandawiadau Llys a Thribiwnlys' am yr hyn aganiateir hefyd yn ddefnyddiol.	Mae Adran 6 newydd wedi'i greu gyda pharagraffau 5.1 i 5.24 o'r Cynllun drafft yn aros gyda'r teitl 'Darpariaethau Iaith Gymraeg Eraill' Gelwir yr Adran 6 newydd yn 'Defnyddio'r Gymraeg Mewn Gwrandawiadau Llys a Thribiwnlys' Bydd cyflwyniad i'r adran fel a ganlyn: - "Mae gan unrhyw barti mewn achos cyfreithiol hawl gyfreithiol i siarad Cymraeg. Gallwch hefyd wneud y canlynol a) cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg b) cyflwyno hawliad yn y Gymraeg a c) ymateb i hawliad yn y Gymraeg . Os oes gofyn cyfieithu dogfennau o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn gwrandawiad, yna bydd GLITEF yn gwneud hynny. Bydd angen i unrhyw gais i gyfieithu dogfennau o'r Gymraeg i'r Saesneg gael ei gymeradwyo gan y Barnwr priodol.

		Bydd paragraffau 5.25 i 5.36 fel y gwelir yn y drafft bellach gyda phennawd newydd o'r enw 'Darpariaethau cyffredinol' o fewn yr Adran 6 newydd.
Nododd rhywun yn fewnol y dylai unrhyw ddatblygiad o ran gwasanaethau yn y dyfodol gynnwys y Gymraeg a bod y Gymraeg yn rhan annatod yn yr holl hyfforddiant i staff.	Rydym yn credu bod y Cynllun yn glir wrth nodi gofynion y sefydliad yn nhermau hyfforddiant staff.	Dim newid i'r Cynllun.
Nododd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ei fod yn braf gweld yr ymroddiad o fewn y Cynllun tuag at ddefnyddio eu haelodau ar gyfer cyfieithu ar y pryd a dylai hyn aros yr un fath.	Cytuno.	Dim newid i'r Cynllun.
Holodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a oedd yn ddoeth dim ond cyfeirio at Microsoft Teams fel ffordd o hwyluso sgwrs gyda siaradwr Cymraeg, gan fod darparwyr eraill.	Yn ystod yr ymgynghoriad nid oedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cefnogi defnyddio unrhyw blat- fform fideo ar wahan i Microsoft Teams.	Dim newid i'r Cynllun.
Nododd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod GLITEM yn datgan ym mharagraff 6.12 y bydd yn defnyddio aelodau CCC ar gyfer cyfieithu ar y pryd, ac nad oedd angen defnyddio geiriau megis 'Cyfieithwyr cymwys neubrofiad addas' gan na fyddent yn aelodau o CCC yn y lle cyntaf pe na fyddent yn brofiadol neu gymwysedig.	Cytunwyd i newid y geiriad yn unol â hynny.	Bydd y paragraff newydd fel a ganlyn: - Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn gwrandawiadau llys/ tribiwnlys, ac Uned yr Iaith Gymraeg GLITEM sy'n gyfrifol am drefnu cyfieithydd Cymraeg.
Nododd un person y dylai para- graff 6.8 hefyd gyfeirio at Gy-	Cytunwyd i'w hychwanegu a'u nodi yn atodiadau'r Cynllun.	Bydd y Cynllun yn cynnwys ato- diadau ychwanegol i gynnwys Cyfarwyddyd Ymarfer

farwyddyd Ymarfer Llywyddol y Tribiwnlys Cyflogaeth a hefyd Gyfarwyddyd Ymarfer yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Cafodd sylw ei dynnu at baragraff 6.15 ac y dylid cyfeirio at 'Canol- fannau gwrandawiadau llysoedd a thribiwnlysoedd' yn hytrach na 'llysoedd a chanolfannau gwrandawiadau' fel y drafftiwyd ar hyn o bryd.	Cytunwyd i newid geiriad y paragraffau.	Llywyddol y Tribiwnlys Cyflogaeth a Chyfarwy- ddyd Ymarfer yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Mae paragraff 6.15 bellach yn darllen "Bydd hysbysiad yn cael ei arddangos ym mhob llys a chanolfannau gwrandawiadau tribiwnlysoedd…."
Nododd un person y dylai'r Tribwinlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, y Tribiwnlys Cyflogaeth, Y Llys Gwarchod a Phrofiant gael penawdau ar wahân i adlewyrchu unrhyw wahaniaethau sy'n berthnasol o fewn eu hawdurdodaethau unigol	Cytunwyd	Bydd y penawdau ar gyfer yr Adran 6 newydd 'Defnyddio'r Gymraeg mewn Gwrandawiadau Llys a Thribi- wnlys fel a ganlyn:- Sifil a Theulu Llysoedd Troseddol Y Llys Gweinyddol Yr Uwch Lysoedd a'r Uwch Dribiwnlysoedd Y Llys Busnes ac Eiddo Y Llys Gwarchod Y Tribiwnlys Cyflogaeth Profiant Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant Achosion a drosglwyddir i lysoedd y tu allan i Gymru Gwasanaeth Rheithgor
Gofynnwyd cwestiwn pam nad oedd paragraff 1.2 ddim yn crybwyll gwaith y Llys Busnes ac Eiddo pan ein bod yn rhestru pob llys arall sy'n berthnasol i'r Cynllun.	Cytunwyd i newid y geiriad i ad- lewyrchu hyn.	Newidiwyd geiriad paragraff 1.2 i adlewyrchu hyn: - Mae'r Cynllun hwn yn ymdrin â gwaith Llys y Goron, Llys Ynadon, yr Un Llys Sifil a'r Un Llys Teulu, y Tribiwnlys Cyflogaeth, y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches, y Llys Gwarchod, Y Llys Busnes ac Eiddo a'r Gwasanaeth Profiant.
Mae paragraff 3.4 yn sôn	Mae cyfeirio at Brofiant yn	Dim newid i'r Cynllun.

am yr atebolrwydd dros y Gwasanaeth Profiant o fewn y sefydliad a cha-fodd gwestiwn ei ofyn ynghylch pam fod y gwasanaeth hwn yn cael sylw penodol yn hyn o beth.	hanesyddol wedi cael ei wneud ar wahân mewn Cynlluniau blaenorol i gydnabod y trefnia-dau llywodraethu gwahanol sy'n bodoli o ran y gwaith hwn. Rydym yn teimlo y dylid cadw'r sylw hwn.	
Cafodd cwestiwn ei ofyn ynghylch pam yr ydym yn nodi y byddem yn gwella ein hoffer cyfieithu ar y pryd yn Llys y Goron Abertawe yn fwy nag yn unrhyw le arall.	Llys y Goron Abertawe a Llys y Goron Caernarfon yw'r ddau Lys sy'n gweld y mwyaf o wrandawiadau Cymraeg e.e. yn 2019/20 (cyn-covid) Gwelwyd 10 achos Cymraeg yn Llys y Goron Abertawe a 15 yn Llys y Goron Caernarfon. Mae gan Lys y Goron Caernarfon system integredig bwrpasol fel bod modd recordio'r cyfieithiadau ond nid ydy Abertawe yn gallu gwneud hynny. Rydym yn rhagweld cost uchel i osod system bwrpasol ymhob un Llys y Goron ac rydym o'r farn mai Abertawe yw'r dewis rhesymegol oherwydd nifer yr achosion Cymraeg	Dim newid i'r Cynllun.
Gwnaed sylw o ran paragraff 3.6 a'r ffaith ein bod yn colli cyfle o beidio â rhestru rhai o swyddogaethau HQ fel rhai sydd â chyfrifoldeb dros gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun.	Cytunwyd i newid y geiriad i gynnwys swyddogion polisi ac Uwch Swyddogion Atebol ar gyfer prosiectau amrywiol.	Bydd geiriad newydd paragraff 3.6 fel a ganlyn: - Mae cyfrifoldeb ar y rhai a restrir isod i gydlynu a gweithredu'r Cynllun: - Prif Weithredwr GLITEM Cyfarwyddwr Cyflawni ar gyfer Cymru. Pennaeth y Gwasanaethau Cymraeg Yr Uwch Dîm Rheoli canolog Bwrdd Rheoli Cymru Rheolwyr Polisi ac Uwch Reolwyr Prosiect yn HQ Rheolwyr Gweithredol a Chyflawni yng Nghymru.
Cafodd cwestiwn ei ofyn am baragraff 4.5 ynghylch pam nad oedd 'hyrwyddo a hwyluso defnydd yr Iaith Gymraeg yng Nghymru' yn berthnasol mewn mannau eraill o fewn y	Er bod paragraff 1.3 yn nodi bod yr holl sefydliad yn cefnogi'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol, roedd yn syniad da i atgyfnerthu'r pwynt ym mharagraff 4.5 i ddangos bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo a'i	Bydd geiriad newydd paragraff 4.5 o dan y pennawd Cynllunio a Darparu Gwasanaethau fel a ganlyn : - "Bydd GLITEF yn hybu ac yn hwyluso defnyddio'r Iaith Gymraeg. Yng Nghymru rydym yn cefnogi'r

sefydliad e.e. CTSC's (Canolfannau Gwasanaeth Llys a Thribiwnlys).	hwyluso ar draws y sefydliad, nid dim ond yn benodol yng Nghymru yn unig. Newidir y geiriad i "Bydd GLITEF yn hybu ac yn hwylus defnyddio'r Iaith Gymraeg".	defnydd o'r iaith Gymraeg yn ein gweinyddiaeth fewnol ac wrth ymwneud gyda chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru."
Nododd un person bod y pennawd sy'n ymwneud ag Achosion Sifil hefyd yn cyfeirio at waith Teulu. Hefyd, roedd angen eglurhad gwell am y broses o gychwyn achosion sifil a theulu.	Cytunwn bod angen gwneud hyn yn fwy clir.	Bydd y pennawd a'r frawddeg gyntaf bellach yn darllen fel a ganlyn : - **Llysoedd Sifil a Theulu** Ar gyfer achosion sifil a theulu sydd â chysylltiad i Gymru gallwch gyflwyno hawliad yn Gymraeg neu Saesneg. Yn y pen draw bydd pob achos digidol a phapur yn cael eu hymdrin â hwy gan y Ganolfan Gwasanaeth Llys neu Dribiwnlys perthnasol. Ar gyfer hawliadau sifil bydd darpariaeth ar-lein newydd ar gyfer hawlio arian ar gael yn y dyfodol agos.
Tynnwyd sylw ynghylch a ddylai'r Cynllun nodi y gallai tyst dyngu llw gan ddefnyddio Llyfrsanctaidd heblaw'r Beibl.	Cytunwyd y dylid newid geiriad paragraff 6.11 i adlewyrchu'r ffaith nad ydy pob siaradwr Cym- raeg yn Gristion. Fodd bynnag bydd angen gwneud yn glir mai dim ond pan fo fersiwn Gymraeg o'r llyfr sanctaidd priodol ar gael y gellir gwneud hyn h.y. na ddisg- wylir i WLITEF eu cyfieithu.	Bydd geiriad newydd ar gyfer yr hen baragraff 6.11 fel â ganlyn:- Bydd copïau o gardiau tyngu llw a chadarnhau Cymraeg ar gael ; a bydd Beiblau Cymraeg a Saesneg ar gael ym mhob llys a thribi- wnlys ynghyd ag unrhyw lyfrau sanctaidd eraill cyn belled â bod fersiynau Cymraeg ar gael...

Casgliad a chamau nesaf.

Mae GLITEF yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r papur ymgynghori. Mae'r holl sylwadau a ddaeth i law wedi cael eu hystyried yn ofalus a gwnaed newidiadau priodol i'r Cynllun. Cyhoeddir y Cynllun diwygiedig law yn llaw â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd, arwyddocâd diwylliannol a gwerth yr iaith Gymraeg. Rydym yn gobeithio y bydd y ffaith bod mwy o'n gwasanaethau digidol ar gael yn yr iaith Gymraeg yn arwain at fwy o bobl yn cael mynediad i gyfiawnder trwy gyfrwng yr iaith.

Byddwn yn parhau i weithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, asiantaethau partner eraill o fewn yr Adran, y Farnwriaeth a'r Ynadaeth yn ogystal â rhanddeiliaid eraill yn y system gyfiawnder i wella a datblygu darpariaeth y Gymraeg.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer rhyngweithio â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu crywbwyll yn yr egwyddorion ymgynghori.

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad

1. Ei Anrhydedd y Barnwr Mererid Edwards, Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg
2. Y Barnwr Stephen Jenkins, Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg dros y Tribiwnlysoedd
3. Elfed ap Gomer Y,H , Cadeirydd Mainc y Gogledd Orllewin
4. Dr Catrin Fflur Huws, Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth.
5. Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
6. Kevin Bunn, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, CTSC Brimingham
7. Donna Mulhern, Pennaeth Gwaith Sifill, Teulu a Thribiwnlysoedd dros Gymru
8. Cath Baldwin ar ran Grŵp Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod, hoffem hefyd gydnabod a diolch i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am y cymorth a'r cyngor a gynigiwyd yn ystod diwygio ein Cynllun Iaith Gymraeg.